COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
Hanner dydd, dydd Mawrth 17 Ionawr 2023
Cynhaliwyd y cyfarfod yn 9 Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB ac mewn nifer o leoliadau eraill, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 - 13.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Jan Tiley, Caroline Davies, Chris Franks, Stephen Nicholls, Jenni Jones-Annetts, Cathy Clark, Marion Burke, Tim Palazon, Sam Emmett; Victory Ezeofor a Dona Lewis (hyd at gofnod 8), Salamatu Fada (cofnodion 3 - 8 yn unig). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd ar y pryd). Jayne Ireland hefyd yn ystod cofnodion 1 a 2.
Ymddiheuriadau: Judith Evans, Nicole Kinnaird, Siôn Aled Owen.

2. Cyflwyniad gan Jayne Ireland (Rheolwr Rhanbarthol, De Ddwyrain Cymru) ynghylch y cwricwlwm presennol, ei dueddiadau a'i heriau

Disgrifiodd Jayne Ireland y niferoedd sylweddol a gyflwynwyd yn ystod Tymor 1 y flwyddyn academaidd hon yn y rhanbarth; roedd rhanbarth De Ddwyrain Cymru eisoes wedi cyflawni 87% o gyfanswm oriau dysgu dan arweiniad yn y rhanbarth yn fuan wedi dechrau Tymor 2. Roedd hyn yn gyfanswm mor uchel yn rhannol oherwydd roedd nawdd Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd hon yn cynnwys tâl ychwanegol/cynnydd o 25% yng nghostau ariannu fesul awr fel rhan o gyllid cyffredinol nad oedd wedi newid (i gynorthwyo i ariannu dosbarthiadau a allai fod yn llai eu maint). Daeth effaith hyn i'r amlwg yn eithaf annisgwyl yn y rhanbarth pan ddadansoddwyd adroddiadau ariannol ac ynghylch y cwricwlwm yn yr hydref. Roedd hyn oll yn golygu lleihad o 20% yn oriau dysgu dan arweiniad oedd eu hangen i gyflawni'r nawdd ariannol, a byddai hynny'n arwain at ostyngiad anochel yn nifer y dysgwyr a ariennid ag arian Llywodraeth Cymru.

Cysylltir hwn gyda'r twf sylweddol yn y gofyn am ESOL a'r angen i gefnogi bobl o Wcráin. Gwariwyd 70% o gyllideb addysgol y rhanbarth yn 2021-22 ar ESOL, ac roedd hynny'n debygol o fod yn agos at 60% yn y flwyddyn academaidd hon. Hefyd, De Ddwyrain Cymru oedd y rhanbarth oedd yn profi'r cynnydd mwyaf yn y galw cyffredinol, ac fel y cyfryw, roedd yn debygol o fynd tu hwnt i 100% ei gyfanswm cyflawni - cefndir a eglurai agweddau ar yr eitem ddilynol yn yr agenda. Roedd hi'n ddichonol 'benthyca' arian, neu diwtoriaid o ranbarthau/rhaglenni eraill, ond roedd y ddau ranbarth daearyddol arall yn agosáu at gyflawni eu targedau hefyd, felly nid oedd hynny'n ateb ynddo'i hun yn y tymor canolig.

Roedd mannau cyfarfod yn y gymuned yn dal yn rhad ac am ddim ar y cyfan (e.e. ar gyfer gwaith cyflogadwyedd, trwy gyfrwng Canolfan Byd Gwaith), ond nid oedd hynny'n wir ar y cyfan yn achos

addysgu mewn mannau trefol. Cafwyd dealltwriaeth newydd ynghylch hynny yn achos YMCA Caerdydd, a oedd wedi llunio cytundeb blynyddol ag Addysg Oedolion Cymru ynghylch costau defnyddio ei ystafelloedd.

I ateb y galw cynyddol, bu'n rhaid monitro meintiau dosbarthiadau yn ofalus. Ac ar y llaw arall, roedd awdurdodau lleol wedi cyfrannu rhywfaint o nawdd o'u lwfansau dysgu oedolion yn y gymuned eu hunain fel y gallai Addysg Oedolion Cymru eu cynorthwyo i gyflawni eu targedau o ran gwariant, a chafwyd symiau unigol o arian (e.e. gan fanc bwyd ym Mlaenau Gwent) fel cyllidebau hyfforddiant. Roedd llawer o bartneriaethau a oedd yn weithgar cyn y pandemig yn ailgychwyn, ond roedd yn rhaid blaenoriaethu'n gaeth mewn perthynas â hynny, oherwydd ni ellid darparu cyrsiau i bob un ohonynt. Roedd canllawiau wedi'u hanfon at Gydlynwyr Datblygu'r Cwricwlwm yn nodi y dylai'r holl gyrsiau o'r fath fod yn rhai yr adenillir eu costau yn llawn o 2023-24 ymlaen.

Roedd sylfeini cydweithredu newydd yn cael eu cyflwyno i adlewyrchu hyn, er enghraifft yn achos New Horizons (sefydliad yn arbenigo mewn materion ym maes iechyd meddwl) a fyddai'n cynnwys ffioedd ein tiwtoriaid yn ei gyllideb am y flwyddyn ddilynol. Roedd adennill costau gan ein sefydliadau partner yn rhywbeth mwy cyffredin yn Ne Ddwyrain Cymru nag yn achos y rhanbarthau eraill, ac ar y cyfan, roedd hynny'n adlewyrchu 'problem llwyddiant'. Cafwyd £70,000 ar y lefel genedlaethol trwy gynllun Mannau Cynnes, ac roedd rhywfaint o'r arian hwnnw i'w wario yn rhanbarth y De Ddwyrain hefyd (un o'r enghreifftiau cyntaf o'r gwariant hwnnw oedd cwrs crefftau yn llyfrgell Dinas Powys). Roedd trafodaethau wedi digwydd hyd yn oed â'r colegau Addysg Bellach ynghylch y posibilrwydd y gallai Addysg Oedolion Cymru gynorthwyo i ddefnyddio rhywfaint o'u cyllidebau dysgu oedolion yn y gymuned oedd heb eu gwario'n ddigonol.

Diolchwyd i Jayne Ireland am ei chyfraniad a gadawodd y cyfarfod ar yr adeg hon.

3. Nodyn ynghylch 'Heriau'r Dyfodol' a chyflwyno'r Cyfrifon Rheoli yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Awst i 30 Tachwedd 2022

Roedd y drafodaeth o dan gofnod 2 yn cynnig cefndir defnyddiol i'r eitem hon a'r ffigurau ariannol fel yr oeddent ar ddiwedd Tachwedd 2022, a nodwyd gan y Cyngor. Gallai'r sefyllfa hon newid; roedd rhai partneriaid yn gallu talu ac yn fodlon gwneud hynny, ond roedd yr incwm yn deillio o ffioedd wedi gostwng ar y cyfan. Yn ystod yr wythnosau ar ôl paratoi'r nodyn hwn, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan y buasai'n dderbyniol i Addysg Oedolion Cymru ddefnyddio 'adfachiadau posibl' o'r ddwy flwyddyn academaidd flaenorol a'u dileu, fel cyfraniad at alw uwch y flwyddyn academaidd hon. Fodd bynnag, yn ystod yr wythnosau hynny, roedd y gorwariant posibl y cyfeirid ato yn y nodyn wedi cynyddu i fwy nag £1 miliwn.

O blith y pedwar dewis yn y papur, mabwysiadu Opsiwn 3 oedd argymhelliad yr Uwch Dîm Rheoli, ac roedd hynny wedi'i argymell hefyd yng nghyd-gyfarfod y Pwyllgorau Adnoddau a Phrofiad y Dysgwyr ym mis Rhagfyr. Yn wir, yn ystod y cyfarfod hwnnw, dim ond opsiwn 2 (ateb y galw ychwanegol yn llawn, â chyfraniad mwy fyth o gronfeydd y sefydliad) oedd wedi'i drafod fel dewis posibl arall yn lle Opsiwn 3.

Roedd Chris Franks, a oedd wedi mynegi pryder yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor am y risg yn deillio o dderbyn ymrwymiadau ariannol heb unrhyw gadarnhad ysgrifenedig yn eu cylch gan Lywodraeth Cymru, yn dal yn ystyried ei fod braidd yn anghyffredin fod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail fawr mwy nag awgrymiadau llafar gan weision sifil. Fodd bynnag, yr oedd yn fwy awyddus i fwrw ymlaen, yn sgil yr awgrym y buasai dileu'r cronfeydd wedi'u hadfachu posibl yn cael eu cynnwys yn y pecyn.

Cymeradwywyd Opsiwn 3 – ymateb â ffocws pendant i'r galw ychwanegol am gyrsiau trwy ddarparu hyd at £500,000 ar ben y dyraniad presennol i gynnal cyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd hon, o

gronfeydd wrth gefn Addysg Oedolion Cymru. Buasai hynny'n costio oddeutu £340,000 a gallai olygu bod diffyg yn sefyllfa ariannol y Sefydliad ar gyfer 2022-23. Buasai hyn yn cael ei wneud ar yr amod bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru a buasai costau'n cael eu monitro'n ofalus. Roedd y posibiliadau o adleoli staff neu beidio â llenwi swyddi gweigion yn gamau ychwanegol i leihau gwariant y dylid eu hystyried hefyd.

4. Cofnodion cyd-gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a'r Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022

Roedd Steve Nicholls wedi cadeirio'r cyd-gyfarfod hwn ac esboniodd bwyntiau arwyddocaol yn y cofnodion, a nodwyd gan y Cyngor. Roedd cofnod 12 yn cyfeirio at gyfradd boddhad o 99% ymhlith dysgwyr a oedd wedi llenwi ffurflenni i werthuso cyrsiau wyneb yn wyneb. Ystyriai rhai bod hyn yn eithriadol o uchel, ond hysbyswyd y Cyngor y byddai arolygon o'r fath i gael adborth gan ddysgwyr yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan y Pwyllgor Profiad y Dysgwyr, yn enwedig o ran y sylwadau mwy beirniadol y byddai'r sefydliad yn eu cael. Mewn perthynas â chofnod 14 a chymeradwyaeth i fuddsoddi £500,000 o'r cronfeydd wrth gefn mewn cronfa a agorwyd yn ddiweddar gan y rheolwyr buddsoddiadau, Brewin Dolphin, roedd y gronfa benodol honno wedi sicrhau incwm da ymhen ychydig fisoedd ar ôl ei sefydlu.

Dywedodd Caroline Davies (fel cadeirydd Pwyllgor Profiad y Dysgwyr) yr oedd wedi bod yn ddiddorol cynnal cyd-gyfarfod am y tro cyntaf. Pan ofynnwyd a ddylid gwneud hynny eto, ystyrid, yn sgil yr agenda maith, nad oedd hi'n briodol gwneud hynny bob tro, ond profwyd y gallai hynny lwyddo pe byddai'n ofynnol unwaith eto yn y dyfodol, ac roedd yn ddull o ddirnad gwaith a chynnwys rôl y pwyllgor 'arall'.

5. Drafft o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

Cafodd yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol drafft eu cymeradwyo gan y Cyngor i'w cadarnhau yn y CCB yn Chwefror 2023, ar ôl i'r pwyllgorau Adnoddau/Profiad y Dysgwyr a'r Pwyllgor Archwilio graffu arnynt yn Rhagfyr 2022. Crybwyllwyd y newid cadarnhaol sylweddol ym mhrisiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r gostyngiad yn ei symiau diffyg. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o'r newid hwnnw, yn ddadleuol, yn debygol o fod wedi deillio o gynnydd ym mhrisiadau daliadau mewn cwmnïau petrocemegol a gwneuthurwyr arfau, yn gysylltiedig â thueddiadau macro-economaidd a'r rhyfel yn Wcráin.

6. Rhaglen ddrafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Digwyddiad i Aelodau ar 22 Chwefror 2023, ynghyd â'r cynigion i'w trafod

O ganlyniad i'r ymgynghori ynghylch y mater (a gytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor), cadarnhawyd - â rhywfaint o rwgnach - y byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn cael ei gynnal yn rhithwir unwaith eto. **Cafodd y rhaglen a amlinellid ar gyfer y CCB ei chymeradwyo gan y Cyngor.**

Ynghylch y ddau gynnig oedd ger bron, derbyniwyd y ddau gan y Cyngor fel rhai a oedd yn cyd-fynd ag egwyddorion y Sefydliad, ac felly dylid eu trafod. Byddai'r cyntaf, ynghylch newidiadau i'r cyfansoddiad, yn cael ei gynnig ar ran y Cyngor gan Victory Ezeofor ac yn cael ei eilio gan Dona Lewis. Byddai'r cynnig i ymestyn cyfnod Nia Parry fel Llywydd yn cael ei gynnig gan Jenni Jones-Annetts ac yn cael ei eilio gan Jan Tiley.

Buasai'r digwyddiad i aelodau yn dilyn y CCB ar 22 Chwefror yn ymwneud ag undebau llafur ac addysg undebau llafur. Roedd Marion Burke wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r siaradwyr a'r themâu a oedd yn dwyn sylw at yr ystod eang o waith a wneid gan yr undebau a'u cysylltiad hanesyddol â CAG/Addysg Oedolion Cymru. Buasai marwolaeth ddiweddar Clive James, un o diwtoriaid cyrsiau undebau llafur y sefydliad, yn cael ei grybwyll yn y digwyddiad.

7. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Tachwedd 2022 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Trafodwyd y pum pwynt gweithredu y cyfeirir atynt yno yn gryno. O ran yr un olaf (parthed Cofnod 12), cadarnhawyd, yn dilyn ymgynghori, y byddai'r Diwrnod Cynllunio Strategol ym mis Mai ac un o gyfarfodydd rhaglenedig y Cyngor yn 2023 yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Llongyfarchwyd Dona Lewis ar ei phenodiad diweddar yn Brif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

8. Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2023

Defnyddiodd Kathryn Robson gyflwyniad PowerPoint i gyfleu ei phwyntiau allweddol. Ynghylch rhaglen mathemateg *Multiply*, roedd cytundeb gwerth £250,000 wedi'i gadarnhau mewn perthynas â'n cyfranogiad yn y rhaglen yn Rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru. Byddai cais am arian o'r Gronfa Arloesi yn cael ei gyflwyno yr wythnos ddilynol. O ran y cais at bartneriaeth ryngwladol *Taith*, byddai canlyniad y cais a gyflwynwyd i sefydlu prosiect yn Nepal yn hysbys erbyn diwedd Chwefror, ac fel rhan un o gynlluniau eraill rhaglen *Taith*, byddai Jayne Ireland a Mark Baines yn teithio fel rhan o grŵp ehangach i Wlad Thai ym mis Mawrth. Roedd cysylltiad â sefydliad yng Ngwlad Groeg hefyd wedi'i sefydlu.

Roedd gwefan newydd ar gyfer y sefydliad wedi'i lansio yr wythnos honno, ac roedd Addysg Oedolion Cymru yn dod yn Sefydliad sy'n Ystyriol o Drawma hefyd. Wrth ailddyrannu adnoddau i feysydd blaenoriaethol, ni ellid diystyru'r posibilrwydd o gynigion ynghylch ymddiswyddo'n wirfoddol yn y dyfodol. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'r Pwyllgor Adnoddau yn cyfrannu'n llawn at y broses. Roedd yr uwch aelodau o'r staff yn dal i ddadlau i sicrhau fod addysg oedolion yn elfen anhepgor o waith y Comisiwn newydd dros Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a byddai aelodau'r Cyngor yn cael cyfle i gael gwybodaeth gan weision sifil sydd â chysylltiad agos â'r broses o greu CETR yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth. Roedd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd CTER wedi'u penodi'n ddiweddar. Nodwyd hefyd newidiadau eraill o ran uwch aelodau'r staff yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith (Cymru) a CholegauCymru, ynghyd ag apwyntiad Comisiynydd newydd y Gymraeg a Chomisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd newidiadau hefyd wedi digwydd ymhlith uwch aelodau'r staff yn Adran Addysg Llywodraeth Cymru.

Roedd y cynllun benthyciadau di-log wedi cael ei ddefnyddio gan ddau aelod o'r staff (un yn gweithio mewn swyddfa a'r llall yn diwtor) a byddai holl aelodau'r staff yn cael eu hatgoffa am hynny ar ddechrau 2023. Er bod llai na'r disgwyl wedi derbyn y cynnig, roedd nifer helaeth wedi gwerthfawrogi'r arwydd o ewyllys da. Roedd yr oddefeb ynghylch treuliau teithio tiwtoriaid wedi dod i ben ar ddiwedd 2022 yn sgil y gost, ond byddai'r Sefydliad yn talu ffioedd cofrestru blynyddol yr holl diwtoriaid i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, a buasai hynny'n gyfraniad rhatach. Roedd y Cyngor yn gwerthfawrogi'r penderfyniad.

Mewn perthynas â gweithgarwch marchnata, roedd y Sefydliad wedi cysylltu ag ITV Wales ynghylch stori bosibl, ac unwaith yn rhagor, cyfeiriwyd at Nation Radio fel cyfrwng posibl. Ynghylch darpariaeth addysg, roedd 74% o gyfanswm targed Llywodraeth Cymru (o 90%) wedi cael ei gyflawni'n gyffredinol, ac roedd 10%

ychwanegol yn cael ei hystyried yn 'weithgarwch ymgysylltu' na fuasai'n cael ei chydnabod yn y data ynghylch myfyrwyr nac yn y targedau.

9. Yr Uwch Dîm Rheoli: Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) 2022 a DPA arfaethedig 2023

Ynghylch cyflawniadau diwedd blwyddyn 2022, roedd angen ailystyried y diffyg gallu i gyflawni'r targed ynghylch darpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Dyna'r un targed y methwyd ei gyflawni am nifer o flynyddoedd yn olynol, ar waethaf cyflwyno datblygiadau newydd megis Wythnos HMS (INSET) 2022. Roedd hi'n bosibl bod angen newid y gofyniad i adlewyrchu'r ffaith fod cymaint o diwtoriaid yn rhai rhan amser, a gallai cynnig sesiynau gyda'r hwyr ganiatáu mwy o hyblygrwydd. Derbyniodd y Cyngor ffurf derfynol dogfen 2022.

Roedd dogfen DPA 2023 wedi newid i adlewyrchu Cynllun Strategol 2023-26, oedd wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar. Buasai manylion ynghylch cynnydd o ran sicrhau'r cyflawniadau ar gael wrth i'r flwyddyn galendr fynd rhagddi. Roedd y dangosyddion yn y Cynllun yn amodol ar weithgarwch gweithredol, a gofnodir ar system a sefydlwyd gan y Tîm Datblygu Digidol ac yn gysylltiedig â Chynllun Datblygu Ansawdd y Sefydliad. **Cymeradwyodd y Cyngor y ddogfen fel y'i cyflwynwyd.**

10. Cofrestr Risg ar gyfer Ionawr 2023

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr, derbyniwyd awgrym y Cyngor ynghylch cynnwys risg newydd yn ymwneud ag ymgyrch cynaliadwyedd y Sefydliad. Dyma'r unig risg oedd wedi'i hychwanegu at y Gofrestr (risg 5.1.4). Cydnabu'r Cyngor y Gofrestr ddiweddaredig, a chafwyd trafodaeth fer am risg 1.2.2, ynghylch costau a rhwymedigaethau pensiynau, a pha un ai a ddylid newid y geiriad neu lefel y risg yn sgil prisiad diweddaraf y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

11. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 ac adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Llywodraeth Cymru

Roedd y dogfennau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn disgrifio'r safonau uchel a gynhelid yng ngwaith yr Adain Cyllid, ac roedd yr archwilydd allanol wedi cadarnhau'r safbwynt hwnnw yn ystod y sesiwn breifat ag aelodau'r Pwyllgor (cofnod 5). Roedd adroddiad blynyddol y Cadeirydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor (cofnod 9). Fe wnaeth y Cyngor gydnabod y cofnodion cyfan, ac fe wnaeth John Graystone grybwyll yn gryno bod cadeiryddion pwyllgor archwilio rhai sefydliadau yn gwerthuso perfformiad y pwyllgor hwnnw trwy gynnal trafodaeth unigol â phob aelod i ganfod eu barn ynghylch ei waith.

12. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Sylwyd nad oedd y cyfleuster cyfieithu ar y pryd wedi'i ddefnyddio o gwbl y tro hwn - dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ers ei sefydlu ym Mai 2017.

Holodd y Cadeirydd a fuasai cynnal cyfarfodydd penodol ar adegau gwahanol - gan gychwyn yn y bore neu yn y prynhawn yn hytrach na'r arfer o'u cynnal dros amser cinio - yn ddefnyddiol. Gan ystyried bod angen teithio i lai o gyfarfodydd erbyn hyn, ystyriai nifer o aelodau y buasai cychwyn rywbryd yng nghanol y bore yn awgrym da o ran cyfarfodydd rhithiol/hybrid y Cyngor.

13. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod 2023

- Dydd Mercher 22 Chwefror 2023 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - digwyddiad rhithiol);
- Dydd Iau 30 Mawrth
- Dydd Mawrth 16 Mai (Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Iau 6 Gorffennaf

Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 17 Ionawr 2023 - gweler cofnod 14, wedi ei nodi ar wahân.

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 3	Nodyn ynghylch 'Heriau'r Dyfodol'	Cymeradwywyd Opsiwn 3 - ymateb â ffocws pendant i'r galw ychwanegol am gyrsiau trwy ddarparu hyd at £500,000 ar ben y dyraniad presennol i gynnal cyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd hon, o gronfeydd wrth gefn Addysg Oedolion Cymru. Buasai hynny'n costio oddeutu £340,000 a gallai olygu bod diffyg yn sefyllfa ariannol y Sefydliad ar gyfer 2022-23. Buasai hyn yn cael ei wneud ar yr amod bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru a buasai costau'n cael eu monitro'n ofalus. Roedd y posibiliadau o adleoli staff neu beidio â llenwi swyddi gweigion yn gamau ychwanegol i leihau gwariant y dylid eu hystyried hefyd.	KR / MB	Chwefror 2023
Cofnod 5	Drafft o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022	Cymeradwywyd yr Adroddiad drafft a'r Datganiadau Ariannol gan y Cyngor i'w cadarnhau yn y CCB yn Chwefror 2023.	ST / MB	Chwefror 2023
Cofnod 6	Rhaglen ddrafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Digwyddiad i Aelodau ar 22 Chwefror 2023, ynghyd â'r cynigion i'w trafod	Cafodd y rhaglen a amlinellid ar gyfer y CCB ei chymeradwyo gan y Cyngor. Ynghylch y ddau gynnig oedd ger bron, derbyniwyd y ddau gan y Cyngor fel rhai a oedd yn cyd-fynd ag egwyddorion y Sefydliad, ac felly dylid eu trafod.	ST	Chwefror 2023